Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Dolybont
# Y Caban Meithrin
# Ysgol Gynradd Dinas Mawddwy
# Machynlleth
# SY20 9LN

## Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2017

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**© Hawlfraint y Goron 2017: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 20/05/2017**

## Cyd-destun

Lleolir Cylch Meithrin Dolybont mewn caban ar dir Ysgol Gynradd Dinas Mawddwy, ger Machynlleth, yn awdurdod lleol Gwynedd. Mae'r lleoliad wedi'i gofrestru i gymryd hyd at 20 o blant rhwng dwy a phedair blwydd oed. Mae'r lleoliad yn cynnig tair sesiwn yr wythnos rhwng 8.50 a 12.10 ar ddydd Llun, dydd Mercher a dydd Iau am 39 wythnos o'r flwyddyn.

Yn ystod yr arolygiad, roedd chwech o blant ar y gofrestr gydag un o'r rhain wedi'i ariannu i dderbyn addysg y blynyddoedd cynnar. Nid oedd unrhyw blentyn ag anghenion dysgu ychwanegol yn mynychu'r lleoliad. Daw bron pob un o'r plant o gartrefi lle mae'r Gymraeg yn brif iaith yr aelwyd.

Mae dau aelod o staff cymwysedig a phrofiadol yn gweithio'n llawn amser yn y cylch ac mae'r arweinydd wedi bod yn ei swydd ers 2009.

Cafodd y lleoliad ei arolygu ddiwethaf gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ym mis Mawrth 2017 a chan Estyn ym mis Mai 2012.

# Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

## Perfformiad presennol

Mae'r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- yr ymarferwyr yn cynllunio a darparu ystod o weithgareddau diddorol i'r plant ar draws y rhan fwyaf o'r meysydd dysgu
- yr ymarferwyr yn rhoi pwyslais effeithiol ar ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) y plant
- y plant yn cael cyfleoedd symbylus i ddysgu am fyd natur
- gan yr ymarferwyr ddisgwyliadau uchel o ran ymddygiad a datblygiad ieithyddol a mathemategol y plant.
- yr ymarferwyr yn fodelau iaith arbennig o dda
- yr ymarferwyr yn hyrwyddo arferion bywyd iach yn effeithiol
- yr ymarferwyr yn darparu'n fuddiol ar gyfer datblygiad ysbrydol a moesol y plant
- ganddo gyflenwad da o adnoddau deniadol a phwrpasol sy'n ymateb yn fuddiol i ofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen

## Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- gan yr arweinydd fwriad eglur i ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg o'r safon gorau ar gyfer plant yr ardal
- yr arweinydd yn gosod disgwyliadau uchel ar ei chyfer ei hun a'r ymarferwyr eraill
- yr ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol fel tîm clos
- y pwyllgor a'r person cofrestredig yn cefnogi'r lleoliad yn effeithiol
- ganddo bartneriaethau buddiol sy'n cyfrannu'n effeithiol at wella safonau a lles y plant
- yr ymarferwyr yn gwneud yn fawr o bob cyfle i ddatblygu yn broffesiynol

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod y lleoliad yn darparu deg awr gyflawn o addysg gynnar ar gyfer y plant tair oed

A2 Sicrhau bod holl ardaloedd y ddarpariaeth barhaus ar gael yn gyson ar gyfer y plant, a'i fod yn ymateb yn briodol i anghenion bob un ohonynt

A3 Cynllunio a darparu cyfleoedd cyson i'r plant ddatblygu holl ystod o fedrau yn yr awyr agored

A4 Darparu cyfleoedd rheolaidd i'r plant gymryd cyfrifoldeb a datblygu'n ddysgwyr annibynnol llwyddiannus

A5 Cryfhau'r weithdrefn hunanarfarnu a chynllunio ar gyfer gwelliant er mwyn cynnwys yr holl randeiliaid ynddi, a sicrhau bod arweinwyr yn monitro a gwerthuso cynnydd yn rheolaidd

### Beth sy'n digwydd nesaf?

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | dd/b |
|---|---|

**Safonau: Barn**

**Lles: Barn**

Nid oes unrhyw adroddiad ar gynnydd plant, safonau yn natblygiad eu medrau, yr iaith Gymraeg a lles. Mae hyn oherwydd nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i adrodd arnynt heb nodi plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Digonol**

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio a darparu ystod o weithgareddau diddorol i'r plant, ar draws y rhan fwyaf o'r meysydd dysgu. Mae hyn yn ennyn diddordeb a mwynhad y rhan fwyaf o'r plant yn llwyddiannus, gan adeiladau'n gynyddol ar eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u medrau cyfredol. Er enghraifft, mae'r plant yn mwynhau chwarae rôl yn y filfeddygfa gan ddefnyddio iaith briodol ac yn cyd-chwarae'n effeithiol i esgus trin yr anifeiliaid anwes. Fodd bynnag, nid yw'r lleoliad yn cynnig deg awr gyflawn o addysg gynnar ar gyfer y plant tair oed yn gyson.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) y plant yn effeithiol yn ystod y tasgau ffocws, ac ar draws y rhan fwyaf o'r ardaloedd dysgu. Rhoddir cyfleoedd gwerthfawr iddynt feithrin eu medrau iaith a llythrennedd cynnar trwy gydol y sesiwn. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn darllen straeon yn rheolaidd gan ddewis llyfrau safonol a pherthnasol, ac yn annog y plant i ddarllen yr arwyddion y maent wedi eu gosod yn yr ystafell. Maent yn gwneud yn fawr o'r cyfleoedd yn ystod y sesiwn i ymestyn medrau cyfrif ac adnabod rhif y plant, er enghraifft wrth iddynt gofrestru. Rhoddir cyfleoedd buddiol i'r plant ddatblygu eu medrau TGCh mewn sefyllfaoedd pwrpasol, gan gynnwys rhaglennu tegan electroneg. Fodd bynnag, nid ydynt yn cynnig darpariaeth barhaus yn gyson i ymateb i anghenion yr holl blant. O ganlyniad, nid yw'r plant yn cael digon o gyfleoedd i arbrofi, ymchwilio na datblygu eu medrau creadigol a chorfforol mân yn llawn, nac i ddilyn eu diddordebau eu hunain. Nid ydynt ychwaith yn cael digon o gyfleoedd i ymarfer medrau rhifedd fel pwyso, mesur ac arbrofi gyda chynhwysedd, er enghraifft wrth chwarae gyda dŵr a thywod.

Mae'r ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd symbylus i'r plant ddysgu am fyd natur. Mae hyn yn cynnwys ymweliad ysgogol gan ffermwr a phedwar oen bach. Maent hefyd yn cynnig cyfleoedd priodol iddynt ymarfer eu medrau corfforol mawr gan ddefnyddio'r offer yn yr ardal allanol. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw'r cylch eto'n cynllunio'n gwbl effeithiol ar gyfer datblygu'r holl ystod o fedrau'r plant yn yr awyr agored.

Darperir cyfleoedd buddiol i'r plant ddatblygu dealltwriaeth well o'r byd y maent yn byw ynddo trwy ddilyn themâu perthnasol fel 'yn yr ardd' a 'glan y môr'. Mae

ymarferwyr yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o'u treftadaeth Gymreig yn effeithiol drwy ddefnyddio ystod eang o hwiangerddi traddodiadol Cymreig a chymryd rhan yn yr eisteddfod leol.

**Addysgu: Da**

Mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth dda o ddatblygiad plant a gofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae ganddynt ymagweddau gofalus, annwyl ac adeiladol tuag at y plant ac, o ganlyniad, mae'r plant yn ymgartrefu'n gyflym a hyderus yn y lleoliad. Mae gan yr ymarferwyr ddisgwyliadau uchel ar y cyfan, yn enwedig o ran ymddygiad a datblygiad ieithyddol a mathemategol y plant. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu lles a datblygiad eu medrau. Fodd bynnag, nid ydynt bob tro'n disgwyl digon o ran annibyniaeth y plant, ac o bryd i'w gilydd maent yn tueddu i or-arwain y gweithgareddau. Mae'r ymarferwyr yn fodelau iaith arbennig o dda. Maent yn defnyddio ystod eang o eirfa a chystrawen raenus yn gyson ac yn dewis straeon safonol yn rheolaidd gan hybu medrau llafar y plant yn effeithiol. Mae hyn yn nodwedd gref o waith y lleoliad.

Mae'r ymarferwyr yn llwyddo i ddarparu amgylchedd deniadol a symbylus y tu mewn ar draws llawer o'r ardaloedd, gan ennyn diddordeb a mwynhad y plant yn effeithiol. Maent hefyd wedi datblygu'r ardal allanol yn ddiweddar gan ychwanegu adnoddau priodol i ymestyn cyfleoedd i'r plant. Wrth holi'r plant yn ofalus a thrwy ymyrryd yn briodol yn eu chwarae, mae'r ymarferwyr yn llwyddo i'w hatgoffa o'u dysgu blaenorol ac yn eu hysgogi i ymestyn eu dealltwriaeth. Maent yn gwneud defnydd da o ganeuon i ychwanegu at naws y lleoliad.

Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant a'u hanghenion yn dda. Maent yn asesu'r plant yn rheolaidd ac yn cofnodi eu hasesiadau yn effeithiol i fesur eu cynnydd. Ar y cyfan, maent yn llwyddo i ddefnyddio'r wybodaeth i gynllunio camau nesaf priodol ar eu cyfer. Yn ddiweddar, mae'r ymarferwyr wedi dechrau defnyddio Proffil y Cyfnod Sylfaen. Mae hyn yn ddatblygiad newydd iawn ac mae hi'n rhy fuan i weld unrhyw effaith ar safonau'r plant. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod rhieni yn ymwybodol o gyflawniad eu plant. Maent yn darparu cofnod deniadol o waith y plant ar ddiwedd y flwyddyn, ac yn rhannu gwybodaeth yn anffurfiol wrth y drws yn gyson.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r lleoliad yn hyrwyddo arferion bywyd iach yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn cynnig bwydydd iach amser byr bryd ac yn dysgu'r plant i olchi eu dwylo cyn bwyta ac ar ôl cyffwrdd anifeiliaid. Mae gan yr ymarferwyr ddealltwriaeth dda o bwysigrwydd cynnig digon o gyfleoedd i'r plant fod yn yr awyr agored ac maent wedi datblygu'r ardal allanol yn fwriadus gyda hyn mewn golwg. Trwy ddefnyddio bin ailgylchu a chreu compost, mae'r lleoliad yn dechrau cynnig cyfleoedd digonol i'r plant ddysgu am weithredu'n gynaliadwy. Fodd bynnag, nid yw hyn wedi cael effaith ddigon cadarn ar eu dealltwriaeth hyd yma.

Mae'r lleoliad yn darparu'n fuddiol ar gyfer datblygiad ysbrydol a moesol y plant. Trwy sylwi ar nodweddion y gwanwyn yn yr ardal allanol, a mwynhau ymweliad cyffrous gan bedwar oen bach bywiog, mae'r plant yn datblygu synnwyr o syndod a rhyfeddod am y byd o'u cwmpas yn hynod effeithiol. Mae'r ymarferwyr yn achub ar

bob cyfle i feithrin gonestrwydd a pharch, gan gynnwys atgoffa'r plant i ddangos gwerthfawrogiad am gymorth a bwyd. Ar y cyfan, darperir cyfleoedd gwerthfawr i hyrwyddo medrau cymdeithasol y plant. Fodd bynnag, nid oes digon o gyfleoedd i'r plant gymryd cyfrifoldeb, dangos blaengaredd na chyflawni tasgau yn annibynnol, er enghraifft wrth baratoi bwyd neu estyn adnoddau. Mae'r lleoliad yn cynnig cyfleoedd priodol i'r plant ddatblygu eu dealltwriaeth o'u diwylliant a'u hunaniaeth; er enghraifft, maent yn cyflwyno hwiangerddi traddodiadol a straeon cynhenid i'r plant. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Er nad oes unrhyw blentyn ag anghenion dysgu ychwanegol yn mynychu'r lleoliad ar hyn o bryd, mae yna drefniadau perthnasol i ymateb yn briodol pan fyddo'r angen yn codi. Mae'r ymarferwyr yn cadw cofnodion o arsylwadau yn rheolaidd. Mae'r rhain yn amlygu unrhyw anghenion ychwanegol yn brydlon. Mae gan yr arweinydd bartneriaeth adeiladol gydag athrawes gyswllt yr awdurdod lleol ac mae hi'n gwneud yn fawr o'i chymorth, a'r cyngor a gwybodaeth y mae hi'n eu cynnig.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos teuluol a chynhwysol hyfryd yn bodoli yn y lleoliad. Mae'r ymarferwyr yn datblygu agweddau goddefgar trwy ddangos parch tuag ei gilydd a phob plentyn fel unigolyn. Maent yn sicrhau bod gan bob plentyn yr un cyfle i gymryd rhan yn yr holl weithgareddau. Maent yn dechrau addysgu'r plant am amrywiaeth mewn ffordd berthnasol trwy gyflwyno adnoddau addas fel doliau a llyfrau amlddiwylliannol.

Mae gan y lleoliad gyflenwad da o adnoddau deniadol a phwrpasol sy'n ymateb yn fuddiol i ofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Mae'r rhain yn cynnwys adnoddau chwarae rôl a TGCh perthnasol a symbylus, a llyfrau diddorol sy'n cyd-fynd â'r thema ac yn ehangu profiadau dysgu'r plant yn llwyddiannus. Fodd bynnag, nid yw'r adnoddau ym mhob ardal yn ymateb yn gyflawn i holl anghenion y plant. Er enghraifft, nid yw'r toes na'r paent ar gael yn rheolaidd, ac nid yw'r lleoliad yn darparu papur digon mawr i'r plant fedru arbrofi'n effeithiol ac yn annibynnol. Mae'r arddangosfeydd deniadol ar y waliau yn nodwedd amlwg o'r ddarpariaeth. Mae'r rhain yn dathlu gwaith y plant ac yn cefnogi eu dysgu yn effeithiol. Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd cynyddol o'r ardal allanol ddeniadol a diogel y maent yn ei rhannu gyda'r ysgol. Mae'r ymarferwyr a'r pwyllgor wedi gweithio'n galed yn ddiweddar i ddarparu adnoddau diddorol ac addas ynddi sy'n ymestyn medrau'r plant yn bwrpasol.

Gwneir defnydd priodol o'r amgylchedd lleol i ehangu profiadau'r plant, er enghraifft trwy wahodd pobl ddiddorol o'r gymuned i'r cylch a mynd am dro yn y coed cyfagos.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan yr arweinydd fwriad eglur i ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg o'r safon gorau ar gyfer plant yr ardal. Er mwyn cyflawni hyn, mae'n gosod disgwyliadau uchel ar ei chyfer ei hun a'r ymarferwyr eraill o ran rheoli ymddygiad y plant a hyrwyddo eu

medrau iaith, rhifedd a TGCh. Mae rolau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n eglur, gyda'r ymarferwyr yn cydweithio'n effeithiol fel tîm clos. O ganlyniad, mae'r sesiynau yn llifo'n rhwydd gyda phawb yn cyflawni eu dyletswyddau ac yn cefnogi'r plant yn effeithiol. Mae'r arweinydd yn gwneud yn fawr o'r cymorth a chefnogaeth gan asiantaethau allanol, fel athrawes gyswllt yr awdurdod lleol, i wella ansawdd y ddarpariaeth ac i ddeall datblygiadau diweddar. Er enghraifft, mae'r lleoliad yn dechrau defnyddio Proffil y Cyfnod Sylfaen i fireinio'r asesiadau o gynnydd y plant.

Mae trefn briodol i reoli perfformiad staff yn bodoli. Mae hyn yn rhoi cyfle buddiol i'r ymarferwyr werthuso eu gwaith yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw'r drefn bresennol hyd yma yn arwain at benodi targedau pendant i ddatblygu medrau'r ymarferwyr yn llawn. Mae'r arweinydd yn sicrhau bod polisïau'r lleoliad i gyd yn eu lle ac yn cael eu gweithredu'n gyson.

Mae'r arweinydd yn cyfathrebu'n rheolaidd gyda'r person cofrestredig a swyddogion y pwyllgor ac maent yn cydweithio'n bwrpasol er budd y lleoliad. Mae'r pwyllgor yn cefnogi'r lleoliad yn effeithiol, er enghraifft wrth reoli'r cyllid.

**Gwella ansawdd: Digonol**

Gyda chymorth yr athrawes gyswllt, mae'r arweinydd yn gwneud defnydd cymwys o drefniadau hunanarfarnu'r awdurdod lleol i werthuso ansawdd gwaith y lleoliad. O ganlyniad i hyn, mae'r arweinydd yn datblygu ei hymwybyddiaeth o rai agweddau o gryfderau'r lleoliad yn ogystal â rhai meysydd addas i'w gwella. Fodd bynnag, nid yw'r gwerthusiad wedi llwyddo i amlygu rhai meysydd pwysig i'w gwella. Mae'r rhain yn cynnwys cynnig digon o oriau ar gyfer addysg y blynyddoedd cynnar na sicrhau bod yr adnoddau y maent yn eu cynnig yn ymateb yn briodol i holl ofynion y plant. Mae'r lleoliad yn defnyddio holiadur Mudiad Meithrin i ganfod barn y rhieni yn flynyddol ac wedi dechrau defnyddio ei ganllawiau ar gyfer holi'r plant. Mae hyn yn cyfrannu'n fuddiol at yr hunanarfarniad. Fodd bynnag, nid yw'r lleoliad yn ystyried digon o farn yr ymarferwyr er mwyn sicrhau gwerthusiad cyflawn.

Mae'r hunanarfarniad yn bwydo cynllun datblygu sy'n blaenoriaethu'r materion y mae'r lleoliad yn dymuno'u gwella. Fodd bynnag, nid yw'r cynllun yn cynnwys digon o fanylion o ran costau, cyfle i werthuso cynnydd, na dyddiadau pendant ar gyfer monitro. O ganlyniad, mae rhai agweddau o'r gwaith yn dal heb eu cyflawni ac mae'n anodd olrhain a sicrhau cynnydd parhaol yn erbyn y targedau. Er hyn, mae cynlluniau blaenorol y cylch wedi arwain at welliannau defnyddiol, gan gynnwys darparu mwy o offer TGCh ar gyfer y plant a gwella ansawdd y ddarpariaeth yn yr ardal allanol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r lleoliad wedi llwyddo i ddatblygu partneriaethau buddiol sy'n cyfrannu'n effeithol at wella safonau a lles y plant.

Mae gan y lleoliad bartneriaeth agos gyda'r rhieni. Mae ymarferwyr yn croesawu'r rheini yn wresog i'r cylch. Maent yn rhannu gwybodaeth yn effeithiol â nhw yn anffurfiol wrth y drws, trwy rannu dogfennau ffurfiol fel y 'Pecyn Croeso' gyda nhw, a chan ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol. Mae'r rhieni yn gwerthfawrogi'r gofal a'r

addysg mae'r lleoliad yn eu darparu ar gyfer eu plant. Mae'r cylch 'Ti a Fi' yn cyfarfod yn yr un adeilad â'r lleoliad. Mae hyn yn rhoi cyfle da i'r rhieni a'r plant ymgyfarwyddo â'r amgylchedd gan helpu iddynt ymgartrefu'n hawdd wrth ddechrau ar eu haddysg gynnar.

Mae'r plant yn elwa o'r berthynas fuddiol sy'n bodoli rhwng y lleoliad a'r ysgol leol. Mae'r lleoliad yn rhannu'r ardal allanol a'i adnoddau gyda'r ysgol yn effeithiol. Wrth ymweld â'r ysgol i gael stori wythnosol yn ystod tymor yr haf, mae'r plant yn ymgyfarwyddo â'r athrawon a'r adeilad. Mae hyn yn lleihau unrhyw bryderon sydd ganddynt cyn iddynt symud ymlaen i'r ysgol, gan dawelu meddyliau'r plant a'r rhieni.

Mae'r berthynas gadarnhaol sy'n bodoli gyda'r athrawes gyswllt o'r awdurdod lleol a'r Mudiad Meithrin yn cyfrannu'n effeithiol at wella gwaith y lleoliad yn barhaus.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r pwyllgor rheoli yn sicrhau bod y lleoliad wedi'i staffio'n briodol i addysgu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen yn effeithiol. Mae'r lleoliad yn gwneud y gorau o arbenigedd a phrofiad yr ymarferwyr, er enghraifft i ddarparu arddangosfeydd deniadol o waith y plant. Mae'r ymarferwyr yn gwneud yn fawr o bob cyfle i ddatblygu'n broffesiynol trwy fynychu hyfforddiant a ddarperir gan yr awdurdod lleol ac ymweld â chylchoedd eraill. O ganlyniad, maent yn caffael gwybodaeth a medrau newydd sy'n arwain at welliannau priodol. Er enghraifft, o ganlyniad i ymweliad â lleoliad cyfagos, diwygiwyd y 'Pecyn Croeso' yn ddiweddar i'w wneud yn fwy deniadol a defnyddiol. Yn ogystal, mae'r ymarferwyr yn gwerthfawrogi'r cyfle y mae'r profiadau hyn yn eu cynnig iddynt i fyfyrio ar eu harfer eu hunain gan feithrin eu hunanhyder yn effeithiol.

Mae system rheoli perfformiad y lleoliad yn datblygu'n briodol gan fodloni anghenion datblygu'r staff yn gynyddol. Rheolir y gyllideb yn ofalus gan y pwyllgor.

O ystyried safon yr addysgu a'r gofal, y profiadau dysgu diddorol, a'r arweinyddiaeth, mae'r cylch yn cynnig gwerth da am arian.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i rieni

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

### Yr arolygydd cofnodol

| | |
|---|---|
| Sheila Margaret Birkhead | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br><br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |